




Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Y Llygad Glas



Roderick Hunt
Alex Brychta



Roedd Mam yn tacluso. Roedd Cad a Wilff yn ei helpu hi. Daethon nhw o hyd i hen gas.

“Mae’n eithaf trwm,” meddai Wilff. “Tybed beth sydd ynddo fe.”

Agorodd Mam y cas a chwerthin.

“Rhai o hen deganau Dad,” meddai hi.



Galwon nhw ar Dad a dangos y teganau iddo.
Chwarddodd Dad.

“Wel,” meddai. “Dydyn nhw fawr o werth. Mae’r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi torri. Wn i ddim pam rwy wedi eu cadw nhw.”

Tynnodd Cad fag allan o’r cas. “Beth sydd yn y bag hwn?” gofynnodd. “Mae’n eithaf trwm.”



Roedd y bag yn llawn o farblis. Arllwysodd Cad nhw ar hambwrdd.

“Maen nhw i gyd yn wahanol,” meddai. “Mae rhai ohonyn nhw yn hardd.”

Dywedodd Dad wrth Mam am daflu’r hen deganau, ond dywedodd y gallai Cad gadw’r marblis.



Aeth Cad a Wilff i fyny i ystafell Cad. Edrychon nhw ar y marblis.

“Am gasgliad,” meddai Wilff. “Mae pob math yma – rhai mawr a rhai bach.”

Cododd Cad y farblen fwyaf ohonyn nhw i gyd.

“Edrych ar yr un las hon,” meddai. “Mae hi mor hardd.”



Rhoddodd Wilff y marblis yn ôl yn y bag.

“Beth am chwarae tu allan gyda nhw,” meddai.

Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.


“O na!” meddai Cad. “Dydw i ddim am i’r allwedd ddisgleirio. Dydw i ddim eisiau antur hud. Rwy am chwarae gyda’r marblis.”



Aeth yr hud â nhw i dref. Roedden nhw mewn stryd gul. Roedd y tai yn agos at ei gilydd.

“Tybed ble rydyn ni,” meddai Cad.

“Wn i ddim,” meddai Wilff. “Ond dydw i ddim yn hoffi’r lle hwn. Mae’n rhoi ofn i fi.”



Yn sydyn, rhedodd dynion i lawr y stryd. Roedden nhw’n gweiddi ac yn bloeddio.

Cuddiodd Cad a Wilff mewn porth.

Ciciodd y dynion ddrws nes iddo agor. Rhedon nhw i mewn i un o’r tai.

“Dywedais i fod y lle hwn yn rhoi ofn i fi,” meddai Wilff.



Agorodd ffenestr i fyny'r grisiau. Dringodd gwraig allan. Yna neidiodd hi.

Glaniodd ar adlen. Llithrodd ar ei hyd a disgyn ar y stryd.

Edrychodd y dynion drwy'r ffenestr. Bloeddion nhw wrth i'r wraig ddianc.



Rhedodd y dynion allan o'r tŷ a rhedeg ar ôl y wraig. Welon nhw mo Cad a Wilff.

"Pam maen nhw'n rhedeg ar ôl y wraig yna?" gofynnodd Cad.

Gwelodd Wilff becyn bach yn gorwedd ar y stryd. Cododd e.

"Mae hi wedi gollwng hwn," meddai.




Agorodd Wilff y pecyn. Y tu mewn roedd carreg las
gron. Roedd yn disgleirio fel petai ar dân.

Ebychodd Cad.

“Mae’n hardd,” meddai, “ond beth wnawn ni â hi?
Fedrwn ni mo’i chadw.”

“Na,” meddai Wilff. “Dere. Rhaid inni chwilio am y
wraig a’i rhoi yn ôl iddi.”



Ar ben pellaf y stryd roedd marchnad. Roedd yn
edrych yn brysur iawn.

“Mae cymaint o stondinau,” meddai Wilff, “a
chynifer o bobl.”

“Gwell inni aros gyda’n gilydd,” meddai Cad.
“Dyw’r bobl ddim i weld yn gyfeillgar iawn.”



Edrychon nhw o gwmpas y farchnad. Roedd pethau rhyfedd ar y stondinau. Doedd Cad a Wilff erioed wedi gweld pethau tebyg iddyn nhw.


“Edrych, dyn yn hudo neidr,” meddai Cad.

Edrychodd Cad a Wilff am y wraig, ond doedden nhw ddim yn gallu ei gweld.

Yna tynnodd rhywun fraich Cad.

Edrychodd Cad a gweld dyn mewn clogyn. Edrychai yn rhyfedd iawn. Edrychodd Cad eto.


Nid dyn oedd e. Y wraig oedd wedi neidio allan o'r ffenestr oedd hi.



“Pwy ydych chi?” gofynnodd Cad.

“Y Dywysoges Aisha ydw i. Os ydych chi wedi cael gafael ar y garreg las rydych chi mewn perygl,” meddai'r wraig.

“Carreg fy nhad yw hi,” aeth yn ei blaen. “Cafodd ei dwyn o'm teyrnas. Rwy wedi dod i'r fan hyn i'w chael yn ôl.”



“Y Llygad Glas yw'r enw ar y garreg,” meddai'r Dywysoges Aisha. “Hebdi chaf fi ddim bod yn Frenhines.”

Yn sydyn roedd bloedd. Dechreuodd dynion redeg tuag atyn nhw.

“Brysiwch! Rhedwch!” meddai'r Dywysoges Aisha. “Mae'r dynion hyn yn beryglus.”



Llaman nhw i llawr y strydoedd culion. Rhedodd y dynion ar eu hôl.

“Dewch,” galwodd y Dywysoges Aisha. “Ewch mor gyflym ag y medrwch.”

Yn sydyn, meddylodd Cad am y bag llawn marblis. Rhoddodd syniad iddi.

Roedd un dyn ar fin eu dal. Taflodd Cad farblis ar hyd y llawr. Llithrodd y dyn arnyn nhw a disgyn yn swp i'r llawr. Cwmpodd y dynion eraill yn bentwr drosto.

“Go dda,” meddai'r Dywysoges Aisha. “Ond daliwch i redeg.”



Aethon nhw ar ras i lawr y strydoedd culion ac ambell ale fach.

Yn sydyn ebychodd y Dywysoges Aisha. “Fedrwn ni ddim mynd ymhellach. Rydyn ni mewn trap.”

Roedd y dynion yn agos iawn atyn nhw.




Cododd Cad y farblen fawr, las. Roedd o'r un maint â'r Llygad Glas.

“Fe gewch chi'r Llygad Glas!” gwaeddodd.

Taflodd y farblen. Hedfanodd i'r awyr. Plymiodd y dynion i'w dal hi.


“Brysiwch!” bloeddiodd Cad. “Rhedwch.”



Ar y dechrau roedden nhw'n meddwl bod tric Cad wedi twyllo'r dynion. Ond dechreuon nhw redeg ar eu hól eto.

"Weithiodd tric y farblen las ddim yn hir," pwffiodd Wilff.

"Dewch," galwodd y Dywysoges Aisha. "Dringwch ar y beic modur hwn."



Rhuodd y beic modur i ffwrdd. Gyrodd y Dywysoges Aisha tuag at y gatiâu.

"O na!" gwaeddodd Cad. "Mae rhywun yn cau'r gatiâu."

"Daliwch yn dynn!" bloeddiodd y Dywysoges Aisha. "A chau eich llygaid."



Roedd y gatiâu bron ynghau. Dim ond bwlch bach oedd ar ôl.

“Ffwrdd â ni!” galwodd y Dywysoges Aisha.

Yn sydyn, trodd hi'r beic modur ar ei ochr.

“O help!” galwodd Wilff.



Aeth y beic modur drwy'r bwlch.


“Rydyn ni wedi ei gwneud hi!” gwaeddodd Wilff.

Prysuodd y beic modur ar hyd y ffordd.

Ar ôl ychydig o filltiroedd, edrychodd Cad o gwmpas.

Roedd jîp y tu ôl iddyn nhw.

“O na!” meddai Cad. “Maen nhw ar ein hôl eto.”



Rhuodd y beic modur heibio i lori. Roedd llwyth mawr o wair ar gefn y lori.

“Daliwch yn dynn,” meddai’r Dywysoges Aisha. Arafodd hi. Yna torrodd raff ar ochr y lori. Disgynnodd y gwair i gyd allan.




Arllwysodd y gwair ar y ffordd. Glaniodd y rhan fwyaf ohono yn y jîp. Gorchuddiodd y dynion.

“Campus!” galwodd Cad. “Mae hynny wedi rhoi stop arnyn nhw.”

Pwyntiodd y Dywysoges Aisha at awyren.

“Dyna fy awyren,” meddai. “Gobeithio y medraf ei chychwyn.”




Neidion nhw oddi ar y beic modur a dringo i mewn i'r awyren.

“Ewch i'r blaen,” meddai'r Dywysoges Aisha. “Fe geisiaf fi danio'r injan.”

Dechreuodd yr awyren symud.

“Brysiwch!” meddai Cad. “Maen nhw'n dod eto.”



Gyrrodd y dynion tuag at yr awyren ac aros yn ei llwybr.

“Daliwch yn dynn,” galwodd y Dywysoges Aisha. Cododd yr awyren. Cyrcydodd y dynion wrth iddi hedfan uwch eu pennau.

“Hwrê,” meddai'r Dywysoges Aisha. “Rydyn ni'n ddiogel.”



Pwyntiodd y Dywysoges Aisha. “Edrychwch i lawr fan yna,” galwodd. “Dyna fy nheyrnas i.”
Edrychodd Wilff ddim. Roedd ei lygaid ynghau.
“Dydw i ddim yn hoffi hedfan,” meddai.
“Mae’n amser glanio,” galwodd y Dywysoges Aisha.
“Peidiwch â dweud wrtho i ,” meddai Wilff. “Dydw i ddim yn hoffi glanio.”



Rhedodd pobl i gyfarfod y Dywysoges Aisha.
“Ydych chi wedi dod â’r Llygad Glas yn ôl?” galwon nhw.
“Helpodd y plant hyn fi,” meddai. “Roedden nhw yn ddewr iawn.”
Bloeddiodd pawb.



Trefnodd y Brenin wledd fawr. Gwisgodd y Dywysoges Aisha ddillad arbennig. Roedd y Llygad Glas yn ei phenwisg.

Ebychodd Cad a Wilff pan welon nhw hi.

“Mae'r Dywysoges yn edrych yn hardd,” meddai Cad.

“Nawr bod y Llygad Glas gen i eto gallaf fod yn Frenhines,” meddai.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yn amser i'r antur ddod i ben.


“Hwyl fawr,” meddai Cad. “Roedd hon yn antur gyffrous.”



Roedd Cad a Wilff yn flin fod yr antur ar ben.
“Wel,” meddai Cad. “Beth am fynd allan i chwarae
gyda’r marblis.”
Edrychodd yn y bag.
“O na!” meddai. “Dim ond pedair sydd ar ôl.”

Y Llygad Glas

Mae hen gasgliad marblis Dad yn arwain at antur gyffrous. Pam mae pobl yn rhedeg ar ôl y dywysoges – a beth yw'r Llygad Glas?



Cam 9 Rhagor o Storiâu A
Trefn ddarllen a argymhellir:

Y Llygad Glas

Achub!

Antur yn yr Iseldiroedd

Y Gorau yn y Lle

Y Peiriant Hedfan

Trafferth gydag Allwedd

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis